# BUSNES TGAU

**Cymhwyster TGAU CBAC mewn Astudiaethau Busnes**

**Pryd gaiff ei gyflwyno:** Un prynhawn yr wythnos dros ddwy flynedd
**Teitl y Cymhwyster:** Cymhwyster TGAU CBAC mewn Astudiaethau Busnes
**Corff Dyfarnu:** CBAC

**Beth mae TGAU Busnes yn ei gynnwys?**
Mae TGAU Busnes yn gwrs DWY flynedd a fydd yn eich galluogi i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i wahanol gyd-destunau busnes. Mae hyn yn cynnwys busnesau fel mentrau bychan, busnesau rhyngwladol mawr a busnesau sy'n gweithredu mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang.

Bydd y cwrs hwn yn caniatáu datblygiad a dealltwriaeth o sut mae cyd-destunau busnes yn effeithio ar ymddygiad busnes. Byddwch yn ennill dealltwriaeth o'r rhan bwysig y mae'r sefydliadau busnes hyn yn ei chwarae yn economi Cymru a gweddill y DU. Fel rhan o'r cwrs mae angen i chi fod yn gyfarwydd â materion presennol mewn busnes a datblygu dealltwriaeth o ddeinameg gweithgareddau busnes ac ystyried data sy'n berthnasol i'r amgylchedd busnes yng Nghymru yn ogystal â'r DU a gwledydd eraill.

Mae TGAU Busnes yn ymchwilio i'r byd busnes go iawn, gan ddatblygu dealltwriaeth o gyfleoedd a materion busnes cyfoes gan edrych ar y CHWE phrif syniad:

- Gweithgaredd busnes
- Dylanwadau ar fusnes
- Gweithredoedd busnes
- Cyllid
- Marchnata
- Adnoddau dynol

**Sut fydd y cwrs yn cael ei asesu?**
Bydd y cwrs TGAU Busnes yn cael ei asesu gyda dau bapur arholiad a fydd yn cael eu cynnal yn ystod ail flwyddyn y cwrs.

**Uned 1: Y Byd Busnes**
(Arholiad ysgrifenedig: 2 awr, 62.5% o'r cymhwyster. Cyfanswm marciau: 100)

**Uned 2: Canfyddiadau Busnes**
(Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud, 37.5% o'r cymhwyster. Cyfanswm marciau: 60)

Bydd y ddau arholiad yn asesu cynnwys o bob un o'r chwe maes pwnc, a fydd yn tynnu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o bob rhan o gynnwys y pwnc ym mhob asesiad.

**Pam mae astudio TGAU Busnes yn ddefnyddiol?**
Gallwch ddewis astudio'r cymhwyster Busnes ar un ai Lefel 3 BTEC neu Safon Uwch, lle bydd y wybodaeth a'r ddealltwriaeth yn cael eu datblygu ymhellach ar gyfer y lefel nesaf. Gallwch ddewis astudio pwnc Lefel 3 arall ar ôl Busnes TGAU, ond bydd y wybodaeth a'r sgiliau y bydd hwn yn eu datblygu yn drosglwyddadwy i'r camau nesaf o astudio a/neu waith. Mae'n galluogi i chi feithrin gwerthfawrogiad dwfn ar gyfer y byd busnes sydd o'n cwmpas a'r byd fyddwch chi'n rhan ohono un diwrnod.

**Costau**
Crys-T Busnes (£17.50)
Pren mesur, beiros, pensil, rhwbiwr, uwcholeuwyr, pad nodiadau a ffolderi
Gwerslyfr/Canllawiau Adolygu